# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD GORFFENNAF 2017

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 26 Gorffennaf 2017 |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | **Canolfan Llanwnda** |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Roddwyd croeso i bawb gan y Cadeirydd Nerys Evans. Yn bresennol roedd Elin Evans, Rhys Owen, Michelle Williams, Cyng. Aeron M Jones, Elwyn Jones, Jason Hunt, Caryl E Lewis (Clerc) |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:<br>Tom Ellis, Gwilym Ll Williams, Gwilym V Thomas.<br><br>Nid oedd Neal Williams yn bresennol.<br><br>**Les Williams –** Nodwyd fod pawb yn dymuno gwellhad buan i Les. Oherwydd salwch mae wedi colli 6 cyfarfod erbyn hyn ond bydd y Cyngor yn cadw ei sedd yn agored iddo gan adolygu ym mhob cyfarfod. |
| 3. | **Datgan Buddiant**<br>Dim i'w nodi |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion 21 Mehefin 2017 a materion yn codi**<br>Derbyniwyd fel cofnod cywir, roedd MW yn cynnig eu bod yn gywir a JH yn eilio.<br><br>**Prosiect Uwch Gwyrfai**<br>Cafwyd diweddariad gan RO. Cymdeithas Porwyr Gwyrfai wedi cyflwyno cais grant ac wedi cael gwahoddiad i wneud cais llawn, y Parc Cenedlaethol yn cynorthwyo gyda hyn. Gwaith yn ymwneud a rheoli llystyfiant ar y mynydd, gwaith ar y comin, tacluso waliau, draenio a cherrig wyneb, creu cylchdeithiau crwn lleol heb fynd ar y lon.<br><br>Bydd y prosiect yn cyflogi Swyddog Datblygu a bydd y person yna wedi ei leoli yng Nghaer Gors 2 ddiwrnod yr wythnos gan agor yr amgueddfa 1 diwrnod yr wythnos am 48 wythnos y flwyddyn. Hefyd bydd y Swyddog yn rhedeg teithiau i ysgolion. 'Cattle grids' - Mae bwriad gorffen y rhai rownd y mynydd i gadw defaid yno. Rhan o'r gwaith yn cynnwys ymestyn llwybr Bryngwyn, comisiynu astudiaeth dichonoldeb i weld beth ydy'r cyfleoedd a gweld a oes diddordeb i wneud hyn. Byddai yn cysylltu Fron gyda chymunedau eraill i gyd. **Cyngor Cymuned i gefnogi a rhoi llythyr o gefnogaeth i Bethan Jones, Parc a chopi i Gymdeithas Porwyr.** |
| 5. | **Materion Misol:**<br><br>**a) Meddygfa Rhostryfan**<br>Arwydd i fyny yn dweud fod y practis yn ystyried cau'r lle gan nodi y byddent yn gallu cynnig gwasanaeth gwell lawr yng Nghaernarfon. Mae'r Feddygfa yn hynod o gyfleus a hwylus, enwedig o ran parcio, methu mynd a phobl at y drws yng Nghaernarfon. Y ddadl ydy nad oes digon o staff i redeg y ddau. Fel Cyngor Cymuned, cytunwyd i yrru llythyr o bryder a gwrthwynebu cau'r Feddygfa. AMJ wedi gofyn am ffigyrau 6 mis o ran defnydd. Angen gyrru llythyr o wrthwynebiad.<br><br>Ffurflen yn y feddygfa i bobl roi eu sylwadau. **Clerc i roi nodyn yn y papur yn annog pobl i lenwi'r ffurflen a lleisio barn**.<br><br>b) Safle Gwe<br>Nododd y Clerc y bydd yn edrych mewn i wella'r Safle dros yr Haf. Derbyniwyd y syniadau a sylwadau canlynol: |

| | |
|---|---|
| | • Map mwy manwl o'r plwy i roi ar y safle gwe<br>• Grantiau – ffurflen gais a pwy sydd wedi elwa<br>• Tudalen Facebook – oes modd cael tudalen lle allwn jest roi pethau fyny ein hunain<br>• Oes bosib i ni roi pethau fyny ein hunain trwy ddefnydd o Wordpress?<br><br>**c) Trydan Llanwnda**<br>Wedi mynd i ffwrdd 3:21am, ond dim cofnod fod neb wedi ffonio SP Networks i adrodd ar y toriad hwn. Toriad bore ma wedi ei achosi oherwydd bod cebl tanddaear wedi tripio 2 prif transformer. AMJ wedi derbyn ymateb gan Dylan Herbert yn nodi fod contractwyr wedi eu penodi ac wedi derbyn caniatâd gan 90% o dirfeddianwyr. Gwaith i ddatrys y problemau yn cael ei wneud yn ystod Awst a Medi. Mi fydd hyn yn cymryd amser a bydd toriadau yn ystod y cyfnod hwn gan eu bod angen gweithio ar y lein. Cael effaith ar fusnesau ac ar unigolion, digwydd ers blwyddyn a hanner. Angen atgoffa pobl i ffonio 105 i adrodd ar unrhyw doriadau. **Clerc i osod nodyn yn yr Herald.**<br><br>d) GVT – Angen llythyru Cymdeithas y Porwyr ar ran Clwb Mountain Rangers – eisiau gwybod pam fod y defaid yn parhau i ddod i'r pentref, mae'n peri problem i'r Clwb.<br>Clerc wedi llythyru'r Porwyr ac mae'r mater yn derbyn sylw. Gwaith ffensio ger y cattle grids angen ei wneud, cyngor sydd yn gyfrifol am hyn. RO yn nodi y byddai Bethan yn gyrru sylwadau i Gyngor Gwynedd hefyd. Mater angen ei ddatrys.<br><br>e) GVT - Bronallt, Rhosgadfan - Dwr yn casglu gan fynd o'r lon i lawr am y tai. Cyngor Gwynedd wedi addo gosod cwter tua 2 flynedd yn ôl i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.<br>Clerc wedi derbyn ymateb gan Ian Morgan; *"Mi fedrai gadarnhau ei'n bwriad i wneud gwaith ar y lleoliad yma. Mae'r lleoliad yn parhau ar ei'n rhestrau a bydd angen ei gyflawni cyn i ni ymgymryd â gwaith selio arwyneb y ffordd. Mwyaf tebyg bydd angen codi lefel y cyrbau o flaen y tai hefyd, gan fod rhai wedi sigo yn sgil gwaith gan Dwr Cymru yn y gorffennol"*<br><br>f) TE - Eithin ar lwybr cae haidd yn broblem, ar ochr Cyngor Llandwrog, angen rhoi cais i'r Cyngor Cymuned wneud y gwaith.<br>Clerc wedi cysylltu gyda Chlerc Llandwrog, mi fydd yn cael ei roi fel mater agenda nesaf a byddent yn edrych mewn iddo.<br><br>g) AMJ - Comisiwn Etholiadau yn ymgynghori ar ffiniau ar hyn o bryd. Mae 1500 o bobl yn ward Llanwnda ar hyn o bryd, AMJ wedi cynnig gadael ffin y ward fel y mae. Angen i'r Cyngor Cymuned yrru llythyr yn nodi eu bod yn fodlon fel y mae a ddim eisiau newid. Ymgynghoriad wedi dod i ben.<br><br>h) AMJ - Tir Comin Rhosgadfan - AMJ yn edrych ar rai o'r materion ac am ddod a manylion i'r cyfarfod nesaf. Nodwyd mai Knight Frank ydy'r cwmni asiant tir comin yn Llundain. Mae achos yn Rhosgadfan le mae person wedi cymryd tir i wneud lle parcio. AMJ i sganio llythyr a'i yrru blaen i MW. MW i yrru co-ordinates y darn Rhosgadfan at yr asiant tir<br><br>i) JH - Cwyn am lwybr Cae Coch, Rhostryfan. Mae perchennog tŷ Tan y Fron wedi tynnu ffens ac wedi rhoi cerrig lawr i wneud lle parcio ymhle mae'r llwybr i fod. Angen adrodd wrth Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd, mae dal bosib cael mynediad ond mae cerrig man o flaen y llwybr. Hefyd mae'r llwybr o'r sgwâr heibio'r capel am Gae Coch wedi tyfu'n wyllt ac angen ei dorri. |

| | |
|---|---|
| | Clerc wedi adrodd wrth Gyngor Gwynedd, mae'r Swyddog Llwybrau am ymweld ar safle. Wyn Williams am dorri'r llwybr. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>Asesiad Risg o'r Fynwent - Clerc yn nodi ei bod wedi derbyn pris gan Phil Johnson, Ymgynghoriaeth Gwynedd, sef £2.50 y garreg.<br>Gofynnwyd i'r Clerc gael pris arall hefyd er mwyn cymharu. Bydd raid gwneud pob carreg er mwyn sicrhau diogelwch. Clerc i holi Unllais Cymru am gyngor ynglŷn â pha mor aml dylid gwneud? |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Dim i'w nodi |
| 8. | **Materion Ariannol**<br>a) Adroddiad Ariannol<br>Cytunwyd ar yr adroddiad ariannol ar taliadau, fel a ganlyn:<br><br>**Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 24 Gorff 2017**<br><br>**1. Cyfrif Cadw**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **21,173.19**<br>**Balans ar derfyn busnes 24 Gorff 2017 21,173.19**<br><br>**2. Cyfrif Siec**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **2,940.97**<br>+ Glyn Hughes bylbiau 96.00<br>- 101030 Caryl E Lewis – Cyflog Meh 461.05<br>- 101027 Cyngor Gwynedd bin Cefnfaes 230.00<br>- 101028 Wyn Williams 795.50<br>- 101007 Treialon Cwn Defaid Llanllyfni 50.00<br>- 101021 Cyllid y Wlad Meh 104.80<br>**Balans ar derfyn busnes 24 Gorff 2017: 1,395.62**<br><br>**Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 26 Gorff 2017:**<br><br>Cyflog Clerc Gorff 461.05<br>Cyflog Clerc Awst 461.05<br>Cyllid y Wlad Gorff 104.80<br>Cyllid y Wlad Awst 104.80<br>Sion Owen 880.00<br>Hughes-Jones, Dyson 180.00<br>Canolfan Llanwnda 15.00<br>**Cyfanswm 2,206.70**<br><br>Nododd y Clerc ein bod wedi derbyn rhybudd gan HMRC yn nodi fod rhaid talu treth PAYE erbyn 22ain o bob mis ond nid yw hyn yn bosib bob amser. Cytunodd y Cyngor i dalu PAYE drwy BACS. Bydd y Clerc yn mynd ati i osod hyn fyny.<br><br>Angen gofyn am doriad arall ar y fynwent. Pwyllgor y fynwent angen cyfarfod mis |

| | |
|---|---|
| | Medi/Hydref.<br><br>b) Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol<br>Clerc yn nodi ei fod yn parhau heb dderbyn y llyfrau yn ôl gan yr archwiliwr mewnol. Mae BDO wedi gyrru llythyr rhybudd ond mae'r Clerc yn eu diweddaru yn rheolaidd ar y sefyllfa. |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Cais C12/1526/24/LL Rhan o dir 6690, Rhosgadfan<br><br>Cyngor Cymuned yn penderfynu gwrthwynebu y cais hwn, mae hyn yn dilyn gwrthwynebiad i'r cais gwreiddiol hefyd ac felly mae'n rhaid bod yn gyson. Nid yw'r lleoliad yn addas a byddai risg o lifogydd. Hefyd, gan nad oes adeiladu wedi digwydd yno dros y blynyddoedd rydym yn amheus o'r angen ar gyfer y tai hyn. |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br><br>Dyddiadau pwyllgorau ardal Unllais – Cytunwyd mai Nerys Evans fel Cadeirydd bydd yn mynychu. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br>AMJ - Cyngor Gwynedd yn cynnal cyfarfod brys yfory i drafod yr LDP. Mae'r cynllun yn argymell adeiladu 8000 o dai newydd. Tydi hyn ddim am helpu cymunedau gwledig ac nid fydd yn diogelu'r iaith.<br><br>JH - Llwybr Bryngwyn, lle wedi ail wneud y bont ger carreg lwyd, y gwter yn y lon, wedi ei lenwi gyda cherrig man, rhai wedi eu colli lawr y lon.<br><br>AMJ - beth sydd yn digwydd gyda thorri coed glanrhyd, cyfnod nythu, angen mynd ar ôl Ian Morgan.<br><br>EJ - Pont sy'n mynd draw am Dai Bro Gilbert yn beryglus iawn, oes mod di ni gael prosiect i drio ail wneud y bont. Y Rheilffordd sydd berchen ond angen gweld a oes modd cydweithio a chael grantiau i'w thrwsio. RO i edrych mewn i hyn o dan gynllun Uwch Gwyrfai.<br><br>EE - Lon beics, tu ôl i Goat, darn bach cyntaf, tywyll ac yn llithrig yno, angen torri'r coed.<br><br>RO - Tyllau yn y lon o Saron i lawr ac wrth junction bwrdd dwr. Hefyd, Bron Seiont - oes bwriad edrych ar y tyllau yn y lon.<br><br>**Dyddiad: 20 Medi 2017**<br>**Lleoliad: Ysgol Rhosgadfan** |